## Cristnogion a Phaganiaid

Y mae dynion yn mynd at Dduw yn eu dirfawr raid,
deisyfant Ei help, erfyniant am hawddfyd ac am fwyd,
am swcwr iddynt yn eu gwaeledd a'u pechod a'u gwaed:
    Cristnogion, paganiaid – yr un yw eu llên.

Y mae dynion yn mynd at Dduw, ac Yntau'n Ei raid,
fe'i cânt yn dlawd, yn druan, heb na llety na bwyd,
wedi'i lethu, Yntau, gan bechod a gwendid a gwaed:
    fe saif y Cristion wrth ochr Duw yn Ei wÿn.

Y mae Duw yn mynd at bob rhyw ddyn yn ei raid,
fe ddigona eu cyrff a'u heneidiau gyda'i fwyd,
ac ar y groes, dros Gristion a phagan, fe gyll Ei waed,
    gan faddau i'r ddau'n ddiwahân.

***Dr R. Geraint Gruffydd***